**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-576
Ein cyf/Our ref KW/07723/19

Janet Finch-Saunders AC
Aelod Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Cardiff
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

23 Rhagfyr 2019

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr yn ymwneud â phresenoldeb mewn ysgolion a'r deisebau cysylltiedig: P-04-576; P-04-606 a P-05-807, a chwestiynau ategol, sef:

- "cais am ddiweddariad ar yr adolygiad o'r polisi presenoldeb mewn ysgolion a syniad o'r amserlen ar gyfer y camau nesaf, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus; a
- ceisio barn Llywodraeth Cymru ar p'un a ddylai penaethiaid gael disgresiwn i awdurdodi absenoldebau am wyliau yn ystod tymor ysgol, pan maent yn ystyried bod hynny'n briodol."

Mae Llywodraeth Cymru yn falch o allu ymateb i'r ddau gwestiwn, sydd yn gysylltiedig â'i gilydd.

O ran y cwestiwn cyntaf, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi dechrau cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r canllawiau ar bresenoldeb gorfodol mewn ysgolion yng Nghymru. Ceir nifer o ganllawiau ar wahân yn ymwneud â phresenoldeb yn yr ysgol, ac mae rhai ohonynt yn hen ac angen eu diweddaru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Codau Presenoldeb mewn Ysgolion (2010) gan gynnwys cyngor ag eglurhad dilynol ar sail ad hoc;

- Fframwaith presenoldeb ar gyfer Cymru gyfan (2011) sy'n cynnwys ystyriaeth o Hysbysiadau Cosb Benodedig;

- Cyngor ar wyliau yn ystod tymor ysgol (2015 a 2016).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae hwn yn ddarn swmpus o waith sy'n gofyn am ddull gweithredu eang ond cymhleth.

Rydym yn bwriadu creu canllawiau clir sy'n rhoi lles y disgybl yn ganolog iddynt. Bydd y canllawiau newydd yn syml, yn gryno ac yn hygyrch i bawb y maent yn effeithio arnynt, yn enwedig y disgyblion, rhieni, athrawon ac awdurdodau lleol. Nod Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo canllawiau modern, empathig a theg sy'n hwyluso twf a hapusrwydd disgyblion ac a fydd yn ceisio creu unffurfiaeth drwy ein system addysg, gan ddiogelu cydraddoldeb a thegwch yn ein hysgolion.

Dechreuodd trafodaethau â rhanddeiliaid allanol ym mis Rhagfyr 2019. Bydd gweithdai cwmpasu ar gyfer rhanddeiliaid yn cael eu cynnal yn y Gogledd a'r De yn y flwyddyn newydd a bydd grwpiau llai o randdeiliaid allweddol/arbenigol yn edrych ar rai o'r materion mwy cymhleth wedi hynny. Rydym yn obeithiol y byddwn mewn sefyllfa i gyhoeddi dogfen ymgynghori erbyn hydref 2020 fan bellaf.

Mewn perthynas â'ch ail gwestiwn, mae Llywodraeth Cymru yn parhau’n dryw i'r daliadau a nodir yn ein cynllun gweithredu *Ein Cenhadaeth Genedlaethol*. Ei nod yw sicrhau'r presenoldeb a'r lles gorau posibl i ddisgyblion a fydd yn sicrhau’r llwyddiant personol ac addysgol mwyaf.


Fel y mae’r gyfraith ar hyn o bryd, mae adran 7(3) a 7(4) o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn dweud y “ceir rhoi caniatâd i fod yn absennol o'r ysgol er mwyn galluogi'r disgybl i fynd i ffwrdd ar wyliau”, ar yr amod bod y cais yn cael ei wneud gan riant y mae'r disgybl fel arfer yn preswylio gydag ef ac na chaniateir mwy na 10 niwrnod o absenoldeb i’r disgybl mewn unrhyw flwyddyn ysgol, ac eithrio mewn "amgylchiadau eithriadol”.

Ni ddylai rhieni felly fynd â'u plant allan o'r ysgol am wyliau heb gael caniatâd y pennaeth o flaen llaw. O dan Reoliadau 2010, mae gan ysgolion bŵer yn ôl disgresiwn i awdurdodi hyd at 10 diwrnod o absenoldeb yn ystod blwyddyn ysgol oherwydd gwyliau teuluol. Os bydd pennaeth yn gwrthod cais am absenoldeb ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor a bod y rhiant yn mynd â'r plentyn ar wyliau beth bynnag, byddai'n cael ei nodi fel 'absenoldeb anawdurdodedig'. Dim ond ysgolion, nid rhieni, a all awdurdodi absenoldebau.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf mai penaethiaid sydd yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniad ynghylch gwyliau yn ystod y tymor. Mae ganddynt fynediad i'r holl wybodaeth gyfredol angenrheidiol i wneud penderfyniad gwybodus ac maent yn gallu ystyried amgylchiadau unigol fesul achos. Bydd nifer o bethau'n cael eu hystyried cyn dod i benderfyniad, gan gynnwys yr adeg o'r flwyddyn, hyd y gwyliau, y rheswm am y gwyliau, yr effaith ar y dysgu, amseriad arholiadau neu brofion, amgylchiadau'r teulu a dymuniadau'r rhieni, yn ogystal â phresenoldeb a chyrhaeddiad y disgybl yn gyffredinol.

Rydym yn gobeithio bod hyn yn eich helpu gyda’ch trafodaethau.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education